COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD LLUN, 2 HYDREF 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | M J Evans | P W Jenkins |
| MJ Kearn | W J Kendall | J E Pratt | G Walter |
| I Williams | MJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |

53. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Norah Clarke

54. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorwyr Jonathan Pratt, William Kendall a Mike Kearn ddatgan buddiannau personol fel Aelodau o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu gan ddweud pe bai’r Pwyllgor yn dechrau trafod y cais cynllunio, y byddai hynny’n ei wneud yn fater o ragfarn ac y byddent wedyn yn datgan buddiant rhagfarnus ac yn gadael y cyfarfod.

Fe wnaeth y Cynghorydd Melanie Evans ddatgan buddiant personol fel cynrychiolydd Bwrdd Gwarchodwyr Walia Coety, gan ddweud pe bai’r trafodaethau yn dechrau cynnwys y cais cynllunio y gallai hynny beri iddi ddatgan buddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod.

55. GALW PENDERFYNIAD Y CABINET I MEWN. ADOLYGIAD PORTH PROSIECT HYBONT

Cyflwynodd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Craffu yr adroddiad a’i bwrpas oedd galluogi'r Pwyllgor i graffu ar benderfyniad y Cabinet a wnaed ar 19 Medi 2023 mewn perthynas â'r adroddiad ar Adolygiad Porth Prosiect HyBont.

Dywedodd hi:

- Yn unol ag Adran 7.23 o Gyfansoddiad y Cyngor, sy’n datgan bod angen 3 Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a Chadeirydd Craffu, er mwyn i benderfyniad gael ei alw i mewn, derbyniwyd Hysbysiad Galw i Mewn gan 4 Aelod a Chadeirydd, yn gofyn am i’r penderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 19 Medi 2023 gael ei Alw i Mewn.

- Rôl y Pwyllgorau Craffu wrth alw penderfyniad i mewn oedd:
    - Rhoi prawf ar rinweddau’r penderfyniad;
    - Ystyried y broses a ddilynwyd i lunio'r penderfyniad;

- Gwneud argymhellion (i gefnogi'r penderfyniad, newid agweddau ar y penderfyniad, neu wahodd y person neu'r corff a wnaeth y penderfyniad i ailystyried);
- Awgrymu camau pellach cyn i benderfyniad gael ei wneud (ond peidio â cheisio cymryd y camau hynny yn lle'r person neu'r corff a wnaeth y penderfyniad);
- Ffurfio barn mewn cyfnod cymharol fyr, er mwyn peidio â pheryglu cyflymder ac effeithlonrwydd y broses benderfynu.

- Roedd argymhelliad yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried penderfyniad y Cabinet ar 19 Medi 2023, a gafodd ei Alw i Mewn, ynghylch Adolygiad Porth Prosiect HyBont a phenderfynu a oedd yn dymuno, naill ai:

  a) cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi yn ysgrifenedig natur ei bryderon;
  ynteu
  b) penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Eglurodd y Cadeirydd pwy oedd Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau nad oeddent ar y Pwyllgor oedd wedi cefnogi Galw'r Penderfyniad i Mewn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau oedd wedi cefnogi Galw i Mewn i siarad am y rhesymau dros Alw i Mewn.

Dywedodd yr Aelodau fod y prif resymau dros Alw i Mewn yn cynnwys:

- Diffyg chwilfrydedd proffesiynol, herio neu gwestiynu'r rhagdybiaethau a wnaed yn yr adroddiad.
- Dewisiadau gwahanol heb gael eu hystyried yn yr adroddiad nac yn ystyriaethau'r Cabinet.
- Y wybodaeth ariannol ddim yn ddigonol i fedru gwneud penderfyniad gwybodus p'un a oedd y prosiect yn dal i gynrychioli elw da ar fuddsoddiad.
- Ni roddwyd sylw i faterion y tir.
- Ni thrafodwyd sut y gellid adennill yr arian oedd wedi cael ei wario hyd yma nac a oedd modd edrych am gyllid arall.
- Mae'r penderfyniad yn gwrth-ddweud Strategaeth Garbon Sero Net 2030 y Cyngor gan fod materion ariannol wedi cael eu hystyried yn bwysicach na lleihau allyriadau carbon i wrthsefyll argyfwng yr hinsawdd.
- Roedd angen craffu ymhellach ar y penderfyniad

Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw Aelodau eraill oedd wedi cefnogi Galw i Mewn i siarad ac yna gwahoddodd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau.

Roedd y trafodaethau manwl rhwng Aelodau, Aelodau'r Cabinet a Swyddogion yn cynnwys:
- Y diffyg cyllideb i ariannu'r diwydrwydd technegol dyladwy angenrheidiol hyd at ei gwblhau i weld a oedd y prosiect arfaethedig yn effeithiol, a oedd dichon ei gyflawni ac a fyddai'n cynhyrchu'r buddion arfaethedig.
- Methu â rhannu costau'r diwydrwydd cyfreithiol dyladwy oherwydd mai ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn benodol yr oedd y cyngor a'i fod yn gyfreithiol freintiedig.
- Cydbwysedd risg a gwobr ac a roddwyd ystyriaeth ddyledus i geisio deall y posibilrwydd o elw cyn tynnu'n ôl.

- Costau posibl hydrogen ar gyfer fflyd yn y dyfodol, pwysau chwyddiant, a allai fod manteision ariannol posibl i'r prosiect ac a oedd dewis i estyn allan i awdurdodau lleol eraill.
- Unrhyw oblygiadau i dynnu'n ôl o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a wnaed rhwng y Cyngor a phartneriaid.
- Eglurder nad oedd penderfyniad wedi ei wneud eto ynglŷn â’r tir.
- I ba raddau yr ystyriwyd y gostyngiad carbon posibl a manteision posibl y rhwydwaith Gwres a chynhyrchu hydrogen yn y dyfodol.
- Roedd y Cyngor wedi lleihau ei garbon o 40 mil tunnell (38%) o leiaf ac roedd 70% o ôl troed carbon y Cyngor yn dod o gaffael.
- Yr amser a dreuliodd swyddogion ar y prosiect hyd yma ac effaith tynnu’n ôl ar allu Pen-y-bont ar Ogwr i barhau â phrosiectau eraill.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd eisiau gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, ac felly, gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor, wedi ystyried a oeddent yn fodlon ar yr atebion, a oeddent yn dymuno:

a) Cyfeirio’r penderfyniad yn ôl i’r Cabinet i’w ailystyried, gan nodi’r rhesymau a’r rhesymeg dros y cais;
   neu
b) Penderfynu peidio â chyfeirio’r mater yn ôl i’r Cabinet.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn archwilio'r penderfyniad, a chan ystyried yr uchod, penderfynodd y Pwyllgor beidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:21